**Julie Morgan AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: DC/JMSS/00617/23

Jayne Bryant AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru,
Bae Caerdydd,
Caerdydd
CF99 1SN

16 Hydref 2023

Annwyl Jayne,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 25 Medi ynglŷn â pheilot Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol Caerdydd a'r Fro a drafodwyd gennym pan wnaethom gyfarfod ar 3 Hydref.

Rwy'n cydnabod pryderon y Pwyllgor ynghylch ein penderfyniad i beidio â darparu cyllid ychwanegol i ymestyn y peilot am flwyddyn arall. Hoffwn eich sicrhau nad yw'r cyllid ar gyfer y peilot wedi cael ei leihau, a bod y prosiect wedi cyrraedd ei ddiwedd fel y trefnwyd ar gyfer mis Tachwedd 2023.

Hoffwn eich sicrhau yn benodol ynghylch sefyllfa'r teuluoedd sydd eisoes yn cael eu cefnogi drwy'r llys, sef pryder yr oeddech yn awyddus i'w bwysleisio. Mae awdurdodau lleol Caerdydd a Bro Morgannwg wedi ein sicrhau y bydd pob teulu sy'n cael ei gefnogi ar hyn o bryd gan y peilot yn parhau i gael cefnogaeth.

Mae'n bosibl y bydd angen ymestyn y cymorth ar gyfer un teulu, ond os bydd hynny'n digwydd mae'r awdurdod lleol wedi dweud wrthym y bydd cynllun ymyrryd cymunedol yn cael ei argymell gyda staff sydd wedi eu hyfforddi ar gyfer y llys, o fewn y tîm Cymorth Teulu Integredig, er mwyn parhau i gefnogi'r teulu dan sylw.

Bydd y gwerthusiad terfynol o'r peilot, a gynhelir ddechrau 2024, yn darparu tystiolaeth i'r Llywodraeth ei defnyddio o ran manteision a heriau gwneud y Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol yn weithredol eto. Bydd yn hanfodol deall y ffordd orau o ddefnyddio model ac egwyddorion y llys, a'u teilwra i sicrhau bod y llys mor effeithiol â phosibl yng nghyd-destun Cymru.

Bydd y gwerthusiad yn sicrhau ein bod yn meddu ar yr wybodaeth briodol sy'n ein galluogi i wneud y penderfyniadau mwyaf priodol ar gyfer plant a phobl ifanc.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy’n gobeithio bod f’ymateb i bryderon y Pwyllgor o gymorth, yn enwedig o ran y gefnogaeth i deuluoedd sydd yn rhan o’r peilot ar hyn o bryd, a sut y byddwn yn defnyddio’r gwerthusiad fel sail i wneud penderfyniadau yn y maes hwn yn y dyfodol.

Yn gywir

**Julie Morgan AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services